

YR ATODLEN

Gweithgareddau y caiff Gweinidogion Cymru dalu grantiau
a gwneud benthyciadau ar eu cyfer o dan y Cynllun hwn

RHAN 6

At ddiben hyfforddi unigolion sydd ynghlwm wrth weithgareddau dyframaethu neu bysgod masnachol, a oedd ynghlwm wrthynt neu sy'n bwriadu bod ynghlwm wrthynt, neu sy'n aelodau o deuluoedd unigolion o'r fath

10. Gweithgareddau sy'n lleihau effaith cynhyrchu bwyd môr ar yr amgylchedd morol.